


Pecyn Mesur Coed Eich Hun

I sicrhau fod yr offer i raddfa, printiwch y ddogfen yma ar A3.
Gwnewch yr offer yn gryfach drwy ludo'r daflen hon wrth gerdyn cyn eu torri allan.



B



Unedau = metrau

HYPSONEDR

Mae graddfa taldra yn seiliedig ar farc/polyn 2 fetr ar goeden


2
3
4
5
6
7
8
9
10
12 1/2
17 1/2
20
25
30
35



C

Sut mae gwneud y caliperau

1. Torrwch allan siapiau A a B.
 2. Torrwch y ddau slot ger gwaelod B.
 3. Edafwch fraich hirach A drwy'r slotiau yn B (dylai'r drefn fod drosodd-danodd-drosodd).
- Dylai eich caliper edrych fel Ffigur 1.



Ffigur 1. Y caliperau gorfenedig

Sut mae defnyddio'r caliperau


1. Agorwch y 'genau' a'u gosod ar y goeden ar onglau sgwâr i'r bôn ar uchder o 1.3m (a elwir 'uchder brest').
2. Symudwch y fraich sy'n llithro nes iddi gyffwrdd â'r bôn. Sicrhewch fod y fraich ar onglau sgwâr i'r raddfa ar y caliperau.
3. Darllenwch y diamedr o'r raddfa i'r chwith o'r fraich sy'n llithro.
4. Cymerwch ddarlleniad arall ar onglau sgwâr i'r darlleniad cyntaf (h.y. ar 90 gradd o gwmpas y goeden) a chyfrifo cyfartaledd y ddau ddarlleniad.

Sut mae gwneud yr hypsometr (Christen)

1. Torrwch allan siâp C.
- Mae eich hypsometr yn barod i'w ddefnyddio.

Sut mae defnyddio'r hypsometr


1. Dewiswch y goeden yr hoffech fesur ei thaldra.
2. Pwyswch bren 2 fetr yn fertigol yn erbyn y goeden wrth ei bôn. Fel arall, mesurwch 2 fetr i fyny o fôn y goeden a marcio'r pwynt. Sicrhewch ei fod yn glir - mae angen ichi allu ei weld o bellter.
3. Cerddwch yn ddigon pell o'r goeden fel nad yw brig y goeden yn fwy na 45 gradd i fyny, wrth ichi edrych ar



Ffigur 2. Pellter cywir o goeden ar gyfer asesiad hypsometr.

hyd y goeden drwy'r hypsometr (gweler Ffigur 2).


4. Symudwch yn ôl ac ymlaen nes bod y goeden gyfan o fewn 'l' graddfa'r hypsometr (gweler Ffigur 3).
 5. Darllenwch o'r raddfa y rhif agosaf i frig y marc neu bren 2 fetr.
- Y rhif hwn yw taldra bras y goeden mewn metrau.



Ffigur 3. Unioni graddfa'r hypsometr ar gyfer mesur.

Sut mae gwneud y relasgop

1. Torrwch allan siâp D.
 2. Gosodwch ddarn o gortyn, tua 55cm o hyd, drwy ei edafu drwy'r twll (wedi'i farcio X) a chlymu cwlwm yn y ddau ben er mwyn ei gadw i mewn.
- Mae eich relasgop yn barod i'w ddefnyddio.





Ffigur 4. Y ffordd gywir o ddal y relasgop (cadwch bellter o 50cm rhwng y llygad a'r relasgop).

Sut mae defnyddio'r relasgop

1. Cerddwch i grŵp o goed a sefyll mewn un man (hwn yw eich 'pwynt samplu').
2. Daliwch y relasgop ar lefel llygad hyd y cortyn sydd ynghlwm i ffwrdd o'r llygad (gweler Ffigur 4).
3. Symudwch mewn cylch (360 gradd) yn yr unfan a chyfrif neu beidio â chyfrif y goeden sydd 1.3 metr uwchlaw'r ddaear (uchder brest) gan ddibynnu a ydy'r goeden yn lletach na 'bwlich' y relasgop (cyfri'r goeden) neu'n gulach na'r bwlich (peidiwch â chyfri'r goeden). Gweler Ffigur 5 am arweiniad. (Mae coed mwy sy'n agos i chi yn fwy tebygol o gael eu cynnwys yn y cyfrif). Gelwir y weithred hon yn ysgubiad relasgop. Os yw coeden 'ar y ffin' (gweler Ffigur 5) dylid ei chynnwys yn y cyfrif.
4. Lluoswch nifer y coed a gyfrifwyd gennych â'r ffactor relasgop (wedi'i farcio ar y relasgop). Er enghraifft, os cyfrifoch chi 7 coeden a'r ffactor relasgop yw 2, yr ateb yw 7 lluosu 2 yn gwneud 14.

► Eich ateb yw amcangyfrif o arwynebedd y croestoriad o goed (a elwir yn arwynebedd gwaelodol) mewn metrau sgwâr o arwynebedd bonion coed mewn hectar (mae 1 hectar yn gywerth ag ardal 100x100 metr neu 10,000 metr sgwâr).



Ffigur 5. Pryd mae cyfrif/peidio â chyfrif coeden

CALIPERAU

A